



Crynodeb o'r Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein

Cefndir a diben

Lluniwyd arolwg ar-lein i gasglu barn preswylwyr a/neu sefydliadau lleol oedd nad oeddent wedi gallu dod i unrhyw un o'r digwyddiadau ymgysylltu eraill a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2017. Diben yr arolwg oedd cynnig cyfle i'r preswylwyr a/neu sefydliadau hyn fynegi eu barn ar y Cynllun Llesiant drafft a gyhoeddwyd i ymgynghori arno ar 25 Medi 2017.

Dull

Lluniwyd a dadansoddwyd yr arolwg ar-lein gan ddefnyddio meddalwedd arolygu Snap. Roedd y cwestiynau'n dyblygu'r rhai a ofynnwyd yn y digwyddiadau wyneb yn wyneb hyd ag yr oedd modd. Cyhoeddwyd dolen i'r arolwg ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a rhoddwyd cyhoedduswydd iddo ar y cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook a Twitter) a thrwy anfon negeseuon e-bost targededig at rwydweithiau sefydledig.

Erbyn y dyddiad cau, sef 18 Rhagfyr 2017, roedd 34 ymateb wedi dod i law, ac mae'r dadansoddiad canlynol wedi'i seilio ar yr ymatebion hyn. Mae'r nifer fach o ymatebion yn golygu na ellir ystyried y dadansoddiad canlynol yn gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach.

Canlyniadau

Proffil demograffig

Gwrywod oedd 35.3% o'r ymatebwyr, a benywod oedd 64.7%.

Roedd 5.9% o'r ymatebwyr yn 18-29 oed, 35.3% yn 30-49 oed, 44.1% yn 50-64 oed a 14.7% yn 65 oed a hŷn.

Ni ofynnwyd cwestiynau penodol am gydraddoldeb, ond gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a fyddai'r amcanion llesiant arfaethedig yn effeithio arnynt hwy yn nhermau eu hoed, tarddiad ethnig, gofynion ieithyddol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu rywedd. Roedd yr unig sylw a gafwyd yn ymwneud â sicrhau y dylai pobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol fod yn rhan o'r broses a'r atebion. Cwblhaodd un ymatebydd yr holiadur yn Gymraeg.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu codau post i'n galluogi i fapio'r ymatebion. Rhoddodd pob un y wybodaeth hon, ond oherwydd y niferoedd bach, nid oedd modd gwneud dadansoddiad ychwanegol ar lefelau daearyddol llai o faint. Fodd bynnag, cafwyd dosbarthiad daearyddol eithaf cytbwys ar draws y fwrdeistref sirol, ar wahân i Gwm Rhymni Uchaf.

Newid Cadarnhaol – Ymrwymiad ar y cyd i newid ar draws sectorau

Atebodd 33 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 48.5% yn cytuno a 48.5% yn cytuno'n gryf â'r amcan llesiant hwn. Gwnaeth naw ymatebydd sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r amcan hwn, a cheir crynodeb o'r prif bwyntiau isod:

- Mae gweithio partneriaethol da yn hanfodol. Mae'r buddion yn amrywiol iawn, o arbed costau ac adnoddau i lai o orlwytho staff a chyfyngiadau amser. Yn gyffredinol, gall ddarparu profiad cymaint gwell i'r cleient neu'r defnyddiwr gwasanaeth.
- Sut gaiff barn preswylwyr a sefydliadau lleol ei chymryd i ystyriaeth gyda'r amcan hwn?
- Mae angen pwyslais ar ddefnyddio asedau'n effeithiol.
- Geiriau yn unig yw hyn ar y funud – sut gaiff cynnydd ei fonitro a pha 'ddannedd' fydd yn sicrhau y caiff yr argymhellion eu cyflawni?
- Mae newid diwylliant (sefydliadol ac ymddygiadol) yn hanfodol er mwyn i gyrrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyflawni dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a chefnogi'r lefel o newid y mae ei hangen i sicrhau gwell canlyniadau llesiant i bobl a chymunedau lleol.
- Bydd yn dibynnu ar gyfathrebu da.

Roedd 58.3% o'r ymatebwyr gwrywaidd yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn, o gymharu â 40.9% o'r ymatebwyr benywaidd. Roedd yr holl ymatebwyr 18-29 oed a 60% o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn. Hefyd roedd hanner yr ymatebwyr 30-49 oed a thraean o'r ymatebwyr 50-64 oed yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn.

Cychwyn Cadarnhaol – Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i genedlaethau'r dyfodol

Atebodd 32 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 34.4% yn cytuno ac roedd 56.3% yn cytuno'n gryf â'r amcan llesiant hwn. Gwnaeth naw ymatebydd sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r amcan hwn, a cheir crynodeb ohonynt isod:

- Cytuno bod ar blant angen dechrau da mewn bywyd er mwyn ffynnu a mynd ymlaen i fyw bywydau hapus, boddhaus a chynhyrchiol, yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf. Fodd bynnag, rhaid i'r cychwyn cadarnhaol barhau ar hyd oes y plentyn, ac ni ellir gwneud hyn ond trwy gynnwys y rhieni a'r teulu ehangach yn well – ni fydd ddarparu ateb tymor byr yn unig yn dda i ddim.
- Sut fydd yr AALI yn cefnogi hyn? Nid oes darpariaeth i lawer o blant ag anghenion ychwanegol a/neu sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, oni fo ysgolion yn defnyddio eu cyllidebau eu hunain, mewn llawer o achosion.
- Rhaid dilyn cychwyn cadarnhaol gyda phontio cadarnhaol i fod yn oedolyn a meithrin hyder, balchder, parch ac ymgysylltu cymunedol/dinesig.
- Mae pob plentyn yn haeddu cychwyn cadarnhaol. Dylai gwasanaethau fel Dechrau'n Deg fod ar gael i bob dosbarth cymdeithasol – mae llawer o blant yn byw mewn cartrefi glân a thaelus mewn ardaloedd a ystyrir yn well nag eraill, gydag incwm da i ddarparu nwyddau materol. Bydd plant yn dioddef o hyd o rianta gwael ac esgeulustod o gamddefnyddio sylweddau a phwysau talu biliau neu gamdriniaeth ddomestig, sy'n cael eu cuddio gan y ffordd maen nhw'n ymddangos.

- Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn rhaglen wych a all fynd i'r afael â rhwystrau'n gynharach.
- Mae Blaenau Gwent yn cytuno'n gryf â'r amcan llesiant hwn gan fod canolbwyntio ar blant a phobl ifanc (o adeg eu cenedlu ymlaen) yn cefnogi'r agenda 'atal'. Rydym hefyd yn cydnabod natur drawsbynciol yr amcan llesiant hwn, yn enwedig o ran yr agenda profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- Addysg i rieni.

Roedd 58.3% o'r ymatebwyr gwrywaidd yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn, o gymharu â 50% o'r ymatebwyr benywaidd. Roedd yr holl ymatebwyr 18-29 oed a 60% o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn. Hefyd roedd hanner yr ymatebwyr 30-49 oed a 46.7% o'r rhai 50-64 oed yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn.

Pobl Gadarnhaol – Grymuso a galluogi ein holl breswylwyr i gyflawni eu potensial eu hunain

Atebodd 32 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 40.6% yn cytuno ac roedd 53.1% yn cytuno'n gryf â'r amcan llesiant hwn. Gwnaeth chwe ymatebydd sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r amcan hwn, a cheir crynodeb ohonynt isod:

- Gallwn i gyd weithio gyda'n gilydd i helpu i fynd i'r afael ag iechyd gwael ac i helpu cleientiaid i fod yn fwy annibynnol. Câi hyn ei alluogi gan rannu gwybodaeth yn well ac adnabod problemau'n gynnar, cyn iddynt droi'n argyfwng. Mae mesurau atal yn well bob amser a thrwy gydweithio'n agos â chleientiaid/defnyddwyr gwasanaeth, gellir cyflawni hyn.
- Mae angen dull ymbarél o weithio. Mae mwy o siopau bwyd i fynd ar Stryd Fawr Coed Duon na siopau bwydydd iach – i bobl o'r tu allan, mae pobl Coed Duon yn hoffi gamblo ac archebu bwyd i fynd. Dim ond canran fach o bobl mae rhaglenni gwirfoddolwyr yn eu cyrraedd – byddai'n well defnyddio partneriaethau cymunedol a grwpiau a chlybiau sydd eisoes wedi'u sefydlu. Ceisiwch gefnogi'r rhain yn lle ailddyfeisio'r olwyn bob 4 mlynedd.
- Mae yna lawer o gyfleoedd i bobl ddysgu sgiliau yn eu hamgylchedd – un ffactor mawr mewn cymunedau yw nad yw pobl ddi-waith yn edrych ar ôl eu llety, y tu allan a'r tu mewn i'w cartrefi. Gellid mabwysiadu cynllun i alluogi pobl i fod yn falch o'u cartrefi, gan weithio gyda Chymunedau yn Gyntaf i wella sgiliau pobl o ran crefftau'r cartref a chynnal a chadw gerddi, gan weithio yn eu cartrefi eu hunain neu rai cymdogion hŷn ac ati, yn lle lleoliad cymunedol/ystafell ddsbarth.
- Mae Blaenau Gwent yn cytuno'n gryf â'r amcan llesiant hwn h.y. prentisiaethau, gwirfoddoli a gwella iechyd pobl ac ati. Fodd bynnag, mae yna gyfle i'r cynllun gynnwys rhagor o wybodaeth am sut y bydd hyn yn cysylltu â chyfleoedd yn y farchnad lafur sy'n bodoli eisoes ac a fydd ar gael yn y dyfodol.
- Mae angen dod o hyd i ffordd o ymgysylltu â phobl nad ydynt yn gwirfoddoli ar hyn o bryd.

Roedd 58.3% o'r ymatebwyr gwrywaidd yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn, o gymharu â 45.5% o'r ymatebwyr benywaidd. Roedd 80% o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn a hanner yr ymatebwyr 18-29 oed yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn. Hefyd roedd 46.7% o'r ymatebwyr 50-64 oed a 41.7% o'r rhai 30-49 yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn.

Lleoedd Cadarnhaol – Galluogi ein cymunedau i fod yn gadarn ac yn gynaliadwy

Atebodd 34 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain roedd 41.2% yn cytuno a 50% yn cytuno'n gryf â'r amcan llesiant hwn. Gwnaeth saith o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r amcan hwn, a cheir crynodeb ohonynt drosodd.

- Byddai cyflwyno hybiau iechyd a lles mewn amwynderau lleol sy'n bodoli eisoes yn ddefnyddiol. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen i bobl deithio'n rhy bell o'r ardal i fanteisio ar wasanaethau ac mae eisoes yn gweithio'n dda ar gyfer peth fel trwsio cymhorthion clyw/sesiynau cyngor. Byddai preswylwyr yn fwy tebygol o fynd i hybiau lleol yn lle gorfod teithio ymhellach i gael cyngor/triniaeth.
- Mae hyn yn golygu defnyddio cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am eu hanawsterau ac atebion. Rhowch y pŵer a'r arian iddynt er mwyn sicrhau y bydd hyn yn digwydd.
- Rheoli'r amgylchedd yn dda yw sail darparu gwasanaethau ecosystem. Hoffwn weld mwy o gydnabyddiaeth o'r amgylchedd naturiol yn y gwaith o gefnogi iechyd a llesiant a chysylltiadau â'r tair agwedd gadarnhaol eraill. Mae angen sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod a'i wella'n bendant er mwyn cyflawni'r agwedd Mannau Cadarnhaol, nid bod hyn yn weithgaredd ychwanegol neu ddewisol.
- Mae Blaenau Gwent yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn a'i ddull gweithio integredig sy'n cysylltu diogelwch, cyfalaf cymdeithasol, cydlyniant a'r amgylchedd naturiol. Rydym hefyd yn cefnogi defnyddio cymunedau (fel partneriaid cyfartal) i gymryd perchnogaeth ar eu cymunedau a bod yn falch ohonynt.
- Mae arnom ni wir angen rhywbeth i'r plant ac oedolion bregus yn awr, ar ôl i Gymunedau yn Gyntaf ddod i ben.
- Os yw cymunedau'n cyfranogi, byddai adborth o gymorth.

Roedd dau draean o'r ymatebwyr gwrywaidd yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn, o gymharu â 40.9% o'r ymatebwyr benywaidd. Roedd yr holl ymatebwyr 18-29 oed ac 80% o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn yn cytuno'n gryf â'r amcan hwn. Hefyd, roedd 46.7% o'r ymatebwyr 50-64 oed a thraean o'r rhai 30-49 oed yn cytuno â'r amcan hwn.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am awgrymiadau ar sut y gallai eu cymuned a/neu sefydliad (os oeddent yn ymateb ar ran sefydliad) gynorthwyo'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i roi'r 4 agwedd gadarnhaol ar waith. Cafwyd sylwadau gan 16 o'r ymatebwyr ar y cwestiwn hwn a cheir crynodeb o'u hymatebion isod:

- Ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a chleientiaid i ddarparu gwasanaeth cyfannol i'n cleientiaid. Gall ymweld â chleientiaid yn eu cartrefi arwain at nodi problemau na fyddent o angenrheidrwydd yn cael eu codi ar y ffôn, ac nid yw llawer o'r cleientiaid wedi cael unrhyw ymyrraeth gan wasanaethau statudol o'r blaen. Wedyn caiff y cleient gymorth i gael gwybodaeth a gwasanaethau na fyddent yn gwybod amdanynt fel arall, neu efallai na fyddent wedi gallu delio â hwy ar eu pen eu hunain oherwydd diffyg hyder, nam synhwyrdd ac ati.
- Mae angen i gymunedau gael pŵer gwirioneddol. Mae angen i hwn gael ei ddatganoli iddynt heb amodau.
- Mae Caerffili'n ardal o amddifadedd ac mae ynddi fannau lle mae tlodi'n broblem wirioneddol. Mae rhai o'r problemau'n hanesyddol, a thranc y diwydiant glo yw'r un mwyaf. Yng Nghymru, rydym wedi datblygu 'meddylfryd gwarchae' ar hyn, gan chwilio am gymorth o'r tu allan, pan dwi'n meddwl bod yr ateb yn ein dwylo ni ein hunain. Busnesau yw peiriant cymdeithas, ac nid ydym wedi gwneud digon i helpu menter i ffynnu. Er mwyn codi Caerffili a Chymru o'r rhigol hon, rhaid creu swyddi a rhaid cael hyfforddiant a pholisïau radical i sicrhau hyn.
- Defnyddio manau gwasanaeth y llyfrgelloedd fel lleoedd i ddsbarthu gwybodaeth ac i gyfarfod â'r gymuned leol
- Mae angen taer i'r cyrff sy'n ymwneud â'r maes osod eu traed ar y ddaear a siarad â phobl.

- Dechreuwch gyda'r pethau bychain, er enghraifft, mae'n ofynnol i'r heddlu fynd i'r afael ag ymddygiad amharchus.
- Mae'n bwysig iawn inni gynnal a chadw ein safleoedd hanesyddol, a gall hyn yn ei dro ddarparu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau, gwirfoddolwyr a gweithwyr a fydd, ar yr un pryd â dysgu sgiliau gwerthfawr, yn dysgu am eu treftadaeth ac yn adeiladu'r cymunedau rydym yn ceisio eu cefnogi.
- Siarad â'r darparwyr gwasanaethau presennol, eu gweithluoedd a'u defnyddwyr.
- Hoffwn wybod mwy am y cyfleoedd sydd ar gael i wirfoddoli. Gellid cynnwys hyn mewn llythyrau datganiad Treth Gyngor ar gyfer preswylwyr newydd yn y dyfodol.
- Byddai croeso i ystyried dulliau ymgysylltu cydweithredol wrth ddefnyddio pobl a chymunedau lleol i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau llesiant lleol. At hynny, byddai croeso i ystyried y methodolegau/dulliau gorau i gyflawni gwaith cydweithredol yn llwyddiannus gyda phobl a chymunedau lleol (fel partneriaid cyfartal), gan gynnwys dylunio/ail-ddylunio gwasanaethau ar y cyd er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun llesiant.

Roedd y Cynllun Llesiant drafft yn cynnwys crynodeb lefel uchel o'r meysydd gweithredu drafft a'r camau posibl y gellid eu cymryd i helpu i gyflawni'r Cynllun Llesiant a'r amcanion cysylltiedig. Gwnaeth 11 ymatebydd sylwadau ar y cwestiwn hwn, a cheir crynodeb o'u hymatebion isod:

- Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu yn allweddol i'r gwaith o ddarparu gwasanaeth modern, ymarferol, beth bynnag a fo. Mae lle i dorri costau a chwtogi, a dwi'n meddwl bod pawb erbyn hyn wedi cael profiad o hyn a'r newidiadau sydd wedi dod yn ei sgil (rhai cadarnhaol a rhai negyddol) ond o ran caffael, nid y pris isaf sydd orau bob amser. Weithiau yr hyn sy'n bwysig yw pwy sy'n darparu'r gwasanaeth gorau, nid pwy sydd rataf. Rhaid i sefydliadau fod yn llai amharod i gydweithio a dysgu rhannu profiadau a syniadau – dim ond wedyn y bydd yn gweithio'n dda. Dwi'n dal i deimlo ei bod yn well gan rai gwasanaethau/sefydliadau weithio hyd braich, ac efallai mai dyma'r rheswm pam y mae llai o ymgysylltu gwirioneddol â phrosesau a newidiadau.
- Cynnwys pobl ifanc 11-25 oed er mwyn meithrin gwydnwch a medr cynaliadwy, a fydd yn newid agweddau a barn yn y dyfodol.
- 'Sut' yw'r elfen bwysicaf.
- Dwi'n meddwl ei bod yn hollbwysig i'r Cyngor a'i safleoedd ddarparu cyfleoedd i rai sy'n gadael ysgol a rhai sy'n ddi-waith ers cyfnod hir gael gwaith, trwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli a phrentisiaethau.
- Mae golwg cartrefi ar y tu allan yn faes lle dwi'n teimlo mae'r Cyngor yn gwneud cam â'i eiddo. Dwi'n deall bod costau a thoriadau i gyllidebau'n creu rhwystr enfawr i oresgyn anawsterau, ond rydym yn byw mewn byd lle rydym yn prynu ac yn barnu gyda'n llygaid. Pe bai mannau'n cael eu hadnewyddu a'u hadfywio mewn ardaloedd fel Tŷ Sign, byddai pobl ag etheg gwaith ac arddulliau rhianta cadarnhaol yn symud i'r ardal, gan greu cydbwysedd gwell i gynnal cenedlaethau'r dyfodol sy'n tyfu i fyny yn yr ardal a chynnal y newidiadau rydych yn gobeithio eu sicrhau yn y blynyddoedd i ddod.
- Oes lle i gynnwys camau gweithredu sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau tlodi mewn gwaith?